



# Parentkind

MANIFFESTO CYMRU 2021

Fel elusen genedlaethol, mae Parentkind yn rhoi llais mewn addysg i'r rheini sydd â rôl magu plant. Rydym yn buddsoddi adnoddau sylweddol i gynrychioli barn rhieni ar addysg eu plant i asiantaethau addysg, awdurdodau lleol a llywodraethau oherwydd bod tystiolaeth yn dweud wrthym fod cyfranogiad rhieni mewn addysg o fudd i bob plentyn ym mhob ysgol a chymdeithas gyfan. Fel y rhwydwaith fwyaf o godwyr arian CRhA yn y DU, rydyn ni'n dod â chefnogaeth a chynngor arbenigol i rieni sy'n gwirfoddoli fel y gall pob ysgol elwa o CRhA llwyddiannus. Mae ein 13,000 o aelodau CRhA yn codi dros £120 + miliwn y flwyddyn, gan ein gosod ochr yn ochr â rhai o'r elusennau mwyaf yn y DU.

**Mae gan gyfranogiad rhieni y potensial i wneud cyfraniad enfawr i brofiad a chyrhaeddiad addysgol plentyn ond eto mae'n aml yn parhau i fod yn un o'r adnoddau a tanddefnyddir yn ddigonol yn y system addysg.**

**Fodd bynnag, nid oes rhaid iddo fod fel hyn.**

Mae gennym weledigaeth o ddyfodol lle mae rhieni'n ymgysylltu'n llawn ac yn cael eu hystyried yn bartneriaid hanfodol yn llwyddiant addysg plentyn. Dyfodol lle mae cartrefi ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd er budd yr holl blant a'r gymdeithas gyfan. Dyfodol lle mae'r bartneriaeth rhwng y ddau yn gadarnhaol ac yn cael ei ystyried yn agored.

Mae Parentkind yn hyrwyddo'r rôl hanfodol hon sydd gan rieni felartneriaid yn addysg eu plentyn gyda'r nod o sicrhau cefnogaeth ymhlith gwleidyddion a chynulleidfaoedd rhanddeiliaid sy'n rhannu ein gweledigaeth. Yn y maniffesto hwn rydym yn galw arnynt i sicrhau bod gan bob rhiant yng Nghymru strwythur clir a thryloyw i ymgysylltu ag addysg eu plentyn.

**Rydym wedi nodi pedwar maes allweddol yr ydym yn gofyn i wleidyddion eu rhoi ar yr agenda addysg gan y Llywodraeth Cymru nesaf.**

## Corff rhiant cynrychioliadol ym mhob ysgol yng Nghymru

Mae Parentkind yn gofyn i gorff rhiant cynrychioliadol fod yn bresennol ym mhob ysgol gyda rhanddeiliaid allweddol yn cydnabod gwerth, ac yn cymeradwyo'r gofyniad, i bob ysgol yng Nghymru gael corff rhiant, fel CRhA, Grŵp Cymorth i Rieni neu Gyngor Rhieni â cheisio gwneud hyn yn ofyniad statudol os na chânt eu sefydlu o'u gwirfodd.



**Wrth ofyn i rieni pa mor debygol y byddent o gymryd rhan** yn unrhyw un o'r grwpiau hyn yn ein Harolwg Rhieni Blynnyddol 2020, gwelsom lefelau tebyg o ddiddordeb rhwng CRhA a grwpiau llai adnabyddus.

ROEDD

47%

 YN DEBYGOL O  
 YMGYSYLLTU  
 Â'R CRHA NEU  
 GYNGOR RHieni

A

43%

 YN DEBYGOL O  
 GYMRYD RHAN  
 MEWN GRŴP  
 GWEITHREDU  
 RHieni.<sup>1</sup>

**Pan ofynnwyd iddynt am y rhwystrau i gymryd rhan**, dywedodd dros chwarter ni ofynnwyd iddynt, gyda 29% yn dweud wrthym nad ydynt yn gwybod pa sgiliau y gallant eu cynnig. (y tri ymateb ar y brig)<sup>2</sup>

 DOES GEN  
 I DDIM AMSER

45%


 NID WYF YN  
 GWYBOD PA SGILIAU  
 Y GALLAF EU  
 CYNNIG

29%


 NI OFYNNWYD  
 I MI



27%



# 2

## Hyfforddi athrawon yng Nghymru sut i weithio'n llwyddiannus gyda rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant

*Rhaid i hyfforddiant athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus gynnwys hyfforddiant ystyrlon ar pam a sut i ymgysylltu â rhieni er budd y plant. Mae llawer o athrawon yn cael eu gwthio i ryngweithio gyda rhieni heb ddeall pam eu bod yn werth chweil a sut i gael y gorau i'r plentyn trwy'r berthynas. Gadewch inni fuddsoddi yn ein hathrawon i adeiladu dull partneriaeth gyda'n rhieni.*



# 3

## Cynnwys ymgysylltiad rhieni ym meini prawf arolygu ac asesu ysgolion gan Estyn

Rhaid i'r mesur o lwyddiant ysgol ddangos sut mae llais ac ymgysylltiad rhieni yn greiddiol yn hytrach nac ar y gyrion. Mae angen asesu ein system addysg ar sut mae'n gweithio gyda rhieni fel partneriaid. Yn syml, pan fydd ysgolion yn cael eu harolygu, rhaid i ymgysylltiad rhieni fod yn greiddiol i fframwaith cyffredin Estyn. Offeryn ar gyfer adeiladu ffordd fwy trwyadl i ddadansoddi ac i gefnogi ysgolion Cymru i ddod yn rhagorol yn fyd-eang ym myd addysg yw

**Glasbrint ar gyfer Ysgolion sy'n Gyfeillgar i Rieni Parentkind.<sup>3</sup>**

**DIM OND**

**2%**

**O ATHRAWON SY'N CREDU  
NAD YW YMGYSYLLTIAD  
RHIENI YN CAEL UNRHYW  
EFFAITH AR EU  
HYSGOL<sup>4</sup>**

“ Mae effaith ymgysylltiad rhieni dros yrfa ysgol myfyriwr yn gyfwerth ag ychwanegu dwy neu dair blynedd at addysg y myfyriwr hwnnw.

**JOHN HATTIE<sup>5</sup>** ”

<sup>3</sup> Parentkind Blueprint

<sup>4</sup> PTA UK, 2017 – Teacher Survey

<sup>5</sup> Hattie, J., 2008 – Visible Learning: A Synthesis of over 800 meta-analyses relating to achievement (Routledge)



# 4

**Rhowch sedd i rieni wrth y bwrdd** pan wneir penderfyniadau am ein hysgolion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol gan gydnabod rhieni fel partneriaid mewn addysg

*Mae rhieni'n gofyn yn gynyddol am ddweud yn sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, ond yr hyn sy'n rhaid ei fod yn glir yw sut y gallant gael dweud eu dweud tu hwnt i'w hysgol eu hunain. Gofynnwn i Lywodraeth Gymru nesaf weithio gyda Parentkind i greu llwybr cynhwysol i rieni gael sedd wrth y*

*byrddau lle gwneir y penderfyniadau*

*- yn eu cymunedau, cynghorau,*

*consortia, ac ym Mharc*

*Cathays. Mae rhieni*

*yn rhanddeiliaid*

*hanfodol wrth*

*i bolisi gael ei*

*ddatblygu ar gyfer addysg eu plant.*



Mae **86%**  
o rieni eisiau **CHWARAE RHAN WEITHREDOL** yn addysg eu plentyn<sup>6</sup>



**MAE 59%** O RIENI EISIAU CAEL DWEUD YN ADDYSG EU PLENTYN AR **LEFEL Y LLYWODRAETH**

Mae **55%**  
o rieni eisiau cael dweud yn addysg eu plentyn ar **LEFEL AWDURDOD LLEOL**<sup>7</sup>

# Hyrwyddo Llais Rhieni

Dechreuodd ein taith Parentkind ym 1956 gan grŵp o rieni arloesol a oedd yn angerddol am gyfraniad rhieni yn addysg eu plentyn ond a oedd yn teimlo bod angen llais arnynt ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol. Felly, o CRhAau ar lawr gwlad sy'n ffurfio ffederasiynau rhanbarthol, ganwyd Cymdeithas Genedlaethol y CRhA.

Nicholas Gillet oedd cadeirydd cyntaf NCPTA, fel y'i gelwid bryd hynny, a'i weledigaeth oedd y dylai rhieni nid yn unig gael rôl leol a llais yn ysgol eu plentyn ond hefyd ar lefel genedlaethol mewn polisi addysg.

Heddiw, mae bywyd teuluol yn wahanol iawn i 65 mlynedd yn ôl ac felly hefyd y system addysg. Mae gennym lawer o wahanol fathau o strwythurau ac amgylchiadau teuluol (teuluoedd niwclear, rhieni sengl, neu ddau riant sy'n gweithio), cefnogaeth gymunedol lawer mwy gwahanol a llu o drefniadau gofal i blant o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r weledigaeth yn aros yr un peth; dylai rhieni nid yn unig fod â rôl leol a llais yn ysgol eu plentyn ond hefyd ar lefel genedlaethol mewn polisi addysg.

Mae Parentkind yn parhau i adeiladu ar ein hen da fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n eiriol ar ran rhieni i ddylanwadu ar bolisi addysg ar lefelau cenedlaethol a lleol. Rydym yn cronni data ymchwil trwy gynnal ystod o arolygon ac yn ymateb i gyfleoedd ymgynghori, gan gynnig persbectif eang i lunwyr polisi o'r hyn y mae rhieni'n ei feddwl o ran addysg gyda thystiolaeth o lais cynrychioliadol rhieni.<sup>8</sup>


Rydym am rannu'r llais riant hwn â llunwyr polisi a phenderfyniadau ym myd addysg a'u gwahodd i ymgysylltu â Parentkind i glywed barn rhieni i ddeall effaith polisi addysg arnynt nhw a'u plant.

Mae Parentkind yn cydnabod ehangder, dyfnder ac amrywiaeth ysgolion Cymru 'a'r darlun cyfnewidiol o sut y maent yn siapio cenedlaethau'r dyfodol. Ni fydd yr un dull i bawb yn gweithio. Gadewch inni fuddsoddi mewn datblygu modelau cynaliadwy ar gyfer llais ac ymgysylltiad rhieni a all gwrdd ag ysgolion lle maent yn gweithio ac addasu tuag at ragoriaeth.

<sup>8</sup> Parentkind Policy and Research





 @PTAExpertbyParentkind

 @Parentkind.org.uk

 @Parentkind

 parentkind.org.uk

 info@parentkind.org.uk

 0300 123 5460